



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2014 Rhif 2722 (Cy. 275)

2014 No. 2722 (W. 275)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar
Dramgwyddau Parcio (Dinas a Sir
Caerdydd) (Diwygio) 2014

The Civil Enforcement of Parking
Contraventions (City and County of
Cardiff) Designation (Amendment)
Order 2014

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dinas a Sir Caerdydd) 2010 (O.S. 2010/1461 (Cy.133)) er mwyn cynnwys yn yr ardal gorfodi sifil a'r ardal gorfodi arbennig ffyrdd penodol a oedd gynt wedi eu heithrio.

Gellir cael Memorandwm Esboniadol oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Swyddfeydd y Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn <http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm>

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order amends the Civil Enforcement of Parking Contraventions (City and County of Cardiff) Designation Order 2010 (S.I. 2010/1461 (W.133)) so as to include within the civil enforcement area and special enforcement area, certain roads that were previously excluded.

An Explanatory Memorandum can be obtained from the Orders Branch, Economy, Science and Transport, Welsh Government, Crown Offices, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ or on the National Assembly for Wales website at <http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm>

2014 Rhif 2722 (Cy. 275)

2014 No. 2722 (W. 275)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

**Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar
Dramgwyddau Parcio (Dinas a Sir
Caerdydd) (Diwygio) 2014**

**The Civil Enforcement of Parking
Contraventions (City and County of
Cardiff) Designation (Amendment)
Order 2014**

Gwnaed 8 Hydref 2014

Made 8 October 2014

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 14 Hydref 2014

Laid before the National Assembly for Wales
14 October 2014

Yn dod i rym 7 Tachwedd 2014

Coming into force 7 November 2014

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan baragraff 8(1) o Atodlen 8 a pharagraff 3(1) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004(1) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2).

This Order is made by the Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon the National Assembly for Wales by paragraph 8(1) of Schedule 8 and paragraph 3(1) of Schedule 10 to the Traffic Management Act 2004(1) and now vested in them(2).

Mae Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru i Orchymyn gael ei wneud o dan y pwerau hyn mewn cysylltiad â rhan o'i ardal.

The County Council of the City and County of Cardiff has applied to the Welsh Ministers for an Order to be made under these powers with respect to part of its area.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â phrif swyddog Heddlu De Cymru yn unol â gofynion paragraff 8(3) o Atodlen 8 a pharagraff 3(4) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

The Welsh Ministers have consulted the chief officer of South Wales Police in accordance with the requirements of paragraph 8(3) of Schedule 8 and paragraph 3(4) of Schedule 10 to the Traffic Management Act 2004.

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Accordingly, the Welsh Ministers make this Order.

(1) 2004 p.18.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Yn rhinwedd adran 92 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004, dynodwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awdurdod cenedlaethol priodol o ran Cymru, at ddibenion Rhan 6 o'r Ddeddf honno.

(1) 2004 c.18.

(2) The functions of the National Assembly for Wales under the Traffic Management Act 2004 were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (2006 c.32). By virtue of section 92 of the Traffic Management Act 2004, the National Assembly for Wales was designated as the appropriate national authority as regards Wales, for the purposes of Part 6 of that Act.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dinas a Sir Caerdydd) (Diwygio) 2014.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Tachwedd 2014 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

Diwygio Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dinas a Sir Caerdydd) 2010

2.—(1) Mae Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dinas a Sir Caerdydd) 2010(1) wedi ei ddiwygio yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn lle'r Atodlen, rhodder yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Title, commencement and application

1.—(1) The title of this Order is the Civil Enforcement of Parking Contraventions (City and County of Cardiff) Designation (Amendment) Order 2014.

(2) This Order comes into force on 7 November 2014 and applies in relation to Wales.

Amendment to the Civil Enforcement of Parking Contraventions (City and County of Cardiff) Designation Order 2010

2.—(1) The Civil Enforcement of Parking Contraventions (City and County of Cardiff) Designation Order 2010(1) is amended in accordance with paragraph (2).

(2) For the Schedule, substitute the Schedule to this Order.

Edwina Hart

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

8 Hydref 2014

Minister for Economy, Science and Transport, one of the Welsh Ministers

8 October 2014

(1) O.S. 2010/1461 (Cy.133).

(1) S.I. 2010/1461 (W.133).

“YR ATODLEN Erthygl 2

Yr ardal a ddynodir yn ardal gorfodi sifil o ran tramgwyddau parcio ac yn ardal gorfodi arbennig

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i'r cyfan o ddinas a sir Caerdydd ac eithrio—

- (a) traffordd yr M4 a'i ffyrdd ymuno ac ymadael a'r gerbytfordd gylchdroi (yr A4054) o amgylch Cyffordd 32;
- (b) cefnffordd yr A470 gan gynnwys ei ffyrdd ymuno ac ymadael gogleddol sy'n gyfagos i gerbytfordd gylchdroi'r A4054, o'r ffin â Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sydd oddeutu 240 o fetrau i'r gogledd o gylchfan Ynys Bridge y B4262 hyd at gerbytfordd gylchdroi Cyffordd 32 yr M4 drwy'r ffyrdd ymuno ac ymadael gogleddol;
- (c) yr A48(M) o'r ffin ag ardal weinyddol Dinas Casnewydd hyd at y ffyrdd ymuno ac ymadael wrth Gyffordd Llanelwyr; a
- (d) yr A4232 o Gyffordd 33 yr M4, gan gynnwys ei cherbytfordd gylchredol, hyd at ei chyffordd â cherbytfordd gylchdroi'r A48 wrth Groes Cwrlwys drwy'r ffyrdd ymuno ac ymadael gogleddol.”

© Hawlfraint y Goron 2014

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

“SCHEDULE Article 2

Area designated as a civil enforcement area for parking contraventions and a special enforcement area

This Order applies to the whole of the city and county of Cardiff with the exception of—

- (a) the M4 motorway and its slip roads and the gyratory carriageway (A4054) around Junction 32;
- (b) the A470 trunk road including its northern slip roads adjoining the A4054 gyratory carriageway, from the boundary with the County Borough of Rhondda Cynon Taf at a point approximately 240 metres north of the B4262 Ynys Bridge roundabout to the M4 Junction 32 gyratory carriageway via the northern slip roads;
- (c) the A48(M) from the boundary with the City of Newport administrative area to the slip road merge and diverge at the St Mellons Junction; and
- (d) the A4232 from Junction 33 of the M4, including its circulatory carriageway, to its junction with the A48 gyratory at Culverhouse Cross via the northern slip roads.”

© Crown copyright 2014

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

